**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2007**

## GWEITHGAREDDAU DIOGELWCH TÂN CYMUNEDOL

**Adroddiad gan Chris Enness, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Cyflwynwyd adroddiad yng Nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 18fed Rhagfyr 2006 i hysbysu'r Aelodau o weithgareddau Gorsafoedd Criw Dydd cyn, ac ôl y newid mewn patrwm shifft. Diben yr adroddiad hwn yw diweddaru Aelodau o'r Gweithgareddau Diogelwch Cymunedol ym mhob gorsaf.

## Cyflwyniad

**2.** Ymgymerir â'r adroddiad hwn i gymharu'r gweithgareddau gwaith a gwblhawyd gan bob gorsaf dân yn 2005/06 a 2006/07.

## Cefndir

**3.** Y gorsafoedd tân oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad blaenorol oedd

- Bangor
- Caernarfon
- Bae Colwyn
- Glannau Dyfrdwy
- Caergybi
- Llandudno
- Y Rhyl
- Wrecsam

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gweithgareddau ym mhob gorsaf dân.

**Gwybodaeth**

**4.** Y Cyfanswm o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref wnaed gan Orsafoedd Llawn Amser a Chriw Dydd o 1af Ebrill 2005 hyd Mawrth 2006 oedd 2338.

**5.** Y Cyfanswm o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref wnaed gan Orsafoedd Llawn Amser a Chriw Dydd o 1af Ebrill 2006 hyd 5ed Chwefror 2007 oedd 4619.

**6.** Mae Gweithgareddau Diogelwch Cymunedol eraill yn cynnwys:-

- Digwyddiadau
- Sgyrsiau (Cyffredinol, Ysgolion ac Eraill)
- Cwisiau

**7.** Y cyfanswm o weithgareddau Diogelwch Tân Cymunedol wnaed rhwng 1af Ebrill 2005 hyd Mawrth 2006 oedd 9857.2 (oriau).

**8.** Y cyfanswm o weithgareddau Diogelwch Tân Cymunedol wnaed rhwng 1af Ebrill 2006 hyd 5ed Chwefror 2007 oedd 9783.5 (oriau).

**9.** Mae'r rhestr lawn o Weithgareddau Diogelwch Tân Cymunedol yng Ngorsafoedd Llawn Amser a Chriw Dydd yn 2005-06 a 2006-07 ynghlwm fel Atodiad A ac Atodiad B.

**10.** Gwnaed 973 o ymweliadau Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref gan y System Dyletswydd Rhan Amser ar gyfer chwarter Tachwedd 2005 hyd Ionawr 2006.

**11.** Gwnaed 1572 o ymweliadau Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref gan orsafoedd tân System Dyletswydd Rhan Amser ar gyfer y chwarter cymharol, Tachwedd 2006 hyd Ionawr 2007.

**Goblygiadau Ariannol**

12. Er mwyn cyfranogi mewn gweithgareddau diogelwch cymunedol, efallai y galwyd am griwiau gan eu rheolwyr i gynorthwyo yn y gweithgareddau hyn ar amseroedd sy'n cynnwys talu goramser.

13. Y cyfanswm o daliadau Goramser i'r holl orsafoedd tân mewn perthynas â gweithgareddau diogelwch cymunedol o'r 1af Ebrill hyd Mawrth 2006 oedd £5962.24.

    Y cyfanswm o daliadau Goramser i'r holl orsafoedd tân mewn perthynas â gweithgareddau diogelwch tân cymunedol o 1af Ebrill 2006 hyd Ionawr 2007 oedd £3553.68.

14. Mae'r taliadau goramser wedi eu dangos yn Atodiad C sydd ynghlwm.

**Gweithgareddau Diogelwch Tân Cymunedol eraill ymgymerwyd â hwy**

15. Mae ystod o weithgareddau â ymgymerir i ddatblygu ieuenctid, gostwng gwrthdrawiadau ar y ffordd ac i gwrdd â'r agenda gymdeithasol ehangach.

16. Mae Atodiad D ac E yn manylu'r ystod o weithgareddau a wneir ar draws Gogledd Cymru.

17. Y cyfanswm o daliadau Goramser i'r 7 gorsaf Llawn Amser a Chriw Dydd mewn perthynas â gweithgareddau cymunedol o 1af Ebrill 2006 hyd 5ed Chwefror 2007 oedd £3553.68.

18. Mae'r rhestr lawn o daliadau goramser i Weithgareddau Diogelwch Tân Cymunedol i Orsafoedd Llawn Amser a Chriw Dydd ar gyfer 2005-06 a 2006-07 ynghlwm fel Atodiad C.

**Gweithgareddau Diogelwch Tân Cymunedol eraill ymgymerwyd â hwy** *(parhad)*

**19.** Mae dau ddigwyddiad tân wedi bod yn ddiweddar lle’r oedd larymau mwg wedi eu gosod gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.  Mae’r larymau hyn wedi rhybuddio’r preswylwyr sydd wedi gadael y safle oedd ar dân.  Roedd y digwyddiadau hyn yn Llandegfan a Llanferres.

**Argymhelliad**

**20.** Fod aelodau yn nodi’r wybodaeth ddarparwyd.